

1. Golygu rhyddiaith yr oesoedd canol

1.1 Ffynonellau *Peredur*

Rhan o Lyfr Gwyn Rhydderch yw'r *Peredur* a olygir yn y gyfrol hon. Gwaith pum copiwr a gysylltir ag abaty Ystrad-fflur yw'r llawysgrif, cynnyrch comisiwn tua 1350 gan Ieuan ap Rhydderch, cyfreithiwr a gweinyddwr amlwg o blwyf Llangeitho (Jones 1973: xiii).¹ O safbwynt hanes rhyddiaith Gymraeg, un o'r ddau gyfrannwr olaf – a adwaenir wrth y label diurddas ond defnyddiol 'Llaw D' – oedd y pwysicaf am mai ef a gopiodd y rhan fwyaf o Fabiogion y Llyfr Gwyn, ac yn eu plith y fersiwn gyflawn gyntaf o *Peredur*. Dichon mai ef hefyd oedd 'golygydd' y Llyfr Gwyn (Huws 2000: 231-44).²

Mae'n sicr i *Peredur* y Llyfr Gwyn darddu o'r un ffynonellau â fersiwn Llyfr Coch Hergest, a gynhyrchwyd ryw hanner canrif yn ddiweddarach, a bod y ddwy fersiwn hynny'n cynrychioli camau yn natblygiad ysgrifenedig y chwedl: cadwyd dwy fersiwn gynharach ond anghyflawn yn llawysgrifau Peniarth 7 (c.1300) a Pheniarth 14 (c.1325), tystiolaeth sicr iddi ddatblygu yn ei ffurf ysgrifenedig dros gyfnod o ryw ganrif (Thomas 2000). Hawdd credu y byddai amrywiadau llafar hefyd ac er na allwn olrhain y ffurfiau ysgrifenedig yn ôl ymhellach na dechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg, mae elfennau cymdeithasol yn y cynnwys yn angori rhannau o *Peredur* yng Nghymru'r ddeuddegfed ganrif (Owen 2000).

Y mae'n arferol bellach ystyried mai un o'r 'Tair Rhamant' yw *Peredur* (*Owein* a *Gereint* yw'r ddwy arall). Carfanu digon diweddar yw hynny a dim ond yn y Llyfr Coch, lle y mae *Peredur* yn dilyn *Owein*, y mae awgrym o egin perthynas rhwng dwy o'r 'rhamantau'. Cysylltiad arall a awgrymir

¹ Mae ysgrifen y ddau ysgrifydd cyntaf mor debyg fel y byddai'n hawdd credu mai'r un person oeddent. Ond a derbyn mai dau oeddent, y mae'n ddigon posibl mai gweithio'n annibynnol a wnaent: Llaw A heb rannu ei ddalen yn ddwy golofn fel yr ysgrifwyr eraill, heb ddefnyddio inc coch, ac yn copïo'r testunau defosiynol a didactig, a Llaw B (sef Ancr Llanddewibrefi), a ddefnyddiai inc coch ar gyfer cywiriadau a phriflythrennau, yn trawsgrifio cyfieithiadau eraill, sef *Purdan Padrig* a Chwedlau Siarlymaen; mae'n debygol mai ef hefyd a gopiodd y testunau ar y 19 dalen a gollwyd rhwng y ddau gyfraniad hyn. Ysgrifydd un testun – cyfieithiad arall, sef *Ystoria Bown de Hamtwn* – oedd Llaw C, ond mae nodweddion yn ei ysgrifen a'i dechnegau ef yn ei uniaethu'n gryf â Llaw D a Llaw E (Huws 2000: 231-41). Nodwedd wahaniaethol bosibl rhwng y ddwy garfan o ysgrifwyr yw mai pwyntil a ddefnyddiai Llaw A a Llaw B ar gyfer rhiwlio ond mai plymen a oedd gan y tri chopiwr arall. Heb wybodaeth gymharol ni ellir gwerthuso arwyddocâd y dystiolaeth hon.

² *Gereint* a rhan o *Kulhwch ac Olwen* (a orffennwyd gan Law D) oedd unig gyfraniad Llaw E (Huws 2000: 231). Yn y cyd-destun hwnnw y mae'n werth cofio am un o arferion sgriptoria'r oesoedd canol, sef bod ysgrifydd profiadol yn dechrau ar waith cyn i un arall, llai profiadol, gymryd at y dasg; ar ôl cyfnod dychwelai'r cyntaf ac ysgrifennu rhagor, ac yna ildio'i le unwaith eto i'r i'r ail (de Hamel 1992: 39a). Tybed ai gwaddol trefn o'r fath a welir yn ymgyfnewid D ac E ar ddiwedd y Mabinogion (sy'n cyd-daro â diwedd y gyfrol)?

pan restrir y chwedlau yn eu trefn yn y Llyfr Gwyn a'r Llyfr Coch a'u carfanu yn ôl yr olyniadau sy'n gyffredin i'r ddau:

LLYFR COCH HERGEST	
	[cyfieithiadau]
	<i>Breudwyt Ronabwy</i>
LLYFR GWYN RHYDDERCH	
	[cyfieithiadau a'r Trioedd]
<i>Pwyll</i>	<i>Owein</i>
<i>Branwen</i>	<i>Peredur</i>
<i>Manawydan</i>	<i>Breudwyt Maxen</i>
<i>Math</i>	<i>Llud a Llevelis</i>
<i>Peredur</i>	<i>Pwyll</i>
<i>Maxen</i>	<i>Branwen</i>
<i>Llud a Llevelys (anghyflawn)</i>	<i>Manawydan</i>
<i>Owein (anghyflawn)</i>	<i>Math</i>
<i>Gereint</i>	<i>Gereint</i>
<i>Kulhwch ac Olwen (anghyflawn)</i>	<i>Kulhwch ac Olwen</i>

Mae'r gymhariaeth uchod yn amlygu tri chlwm: pedair cainc y Mabinogi (sef *Pwyll*, *Branwen*, *Manawydan* a *Math*); *Peredur*, *Maxen* a *Llud a Llevelys*; a *Gereint* a *Kulhwch ac Olwen*.³ Yr hyn a ymhlygir yw mai (o ddau gopi, er na archwiliwyd cydberthynas pob chwedl eto) o dair ffynhonnell y copiwyd y clymau hyn i'r Llyfr Gwyn ac i'r Llyfr Coch. At hynny, y mae tebygrwydd y ddwy fersiwn o *Owein* yn profi mai o ffynonellau a rannai'r un traddodiad y copiwyd hithau. O ran cynseiliau'r Mabinogion, felly, y mae'r ymbatrymu uchod yn cynnig tystiolaeth mai o bedair ffynhonnell gytras y copiwyd deg o'r Mabinogion i'r Llyfr Gwyn:

CYNSAIL	CYNNWYS
1	<i>Pwyll</i> , <i>Branwen</i> , <i>Manawydan</i> , <i>Math</i>
2	<i>Peredur</i> , <i>Maxen</i> , <i>Llud a Llevelys</i>
3	<i>Owein</i>
4	<i>Gereint</i> , <i>Kulhwch ac Olwen</i>

Nid llawysgrifau delfrydol oedd y tair olaf: yr oedd y dail a gynhwysai ddiwedd *Llud a Llevelys* a chwarter olaf *Kulhwch ac Olwen* wedi eu colli, a rhaid bod cynsail *Owein* – sydd heb ei dechrau, ei chanol, a'i diwedd yn y Llyfr Gwyn – yn ddigon carpiog.⁴ Er hynny, y mae'n eglur nad ffynonellau Dwylo D ac E oedd yr unig gopiâu o'r tair chwedl anghyflawn: yn hytrach, yr oedd y traddodiad copïo yn ddigon cynhyrchiol a chyfoethog i Hywel Vychan, a drosglwyddodd y Mabinogion i'r Llyfr Coch ryw ddwy

³ Diwygier gosodiad Huws (1991: 16, N.25) am y gyfatebiaeth yn nhrefn y chwedlau. Ateg (nid cryf – a gweler N.2 uchod) i bartneriaeth ffynonellol *Gereint* a *Kulhwch* yw i'r gyntaf a rhan o'r olaf gael eu copïo gan yr un ysgrifydd (Llaw E) (Huws 1991: 4).

⁴ Yn yr un modd, collwyd rhannau o *Peredur* yn Peniarth 7 a Pheniarth 14.

genhedlaeth yn ddiweddarach, allu troi at lawysgrifau eraill a berthynai i'r un traddodiad â chynseiliau'r Llyfr Gwyn. Ond yr hyn sy'n bwysig o ran tras *Peredur* yw bod yma awgrym cryf iddi gael ei thraddodi yn yr un olyniaeth lawysgrifol â *Breudwyt Maxen a Llud a Llevelys*.⁵

1.2 *Peredur*

Os nad oedd copiŵyr yr oesoedd canol yn cysynied am 'dair rhamant', nid eiddynt hwy ychwaith yw'r teitl *Peredur*: dim ond yn llawysgrif Peniarth 14 y rhoddir enw i'r chwedl, sef *Ystoria Beredur*. Er hynny, ac er bod yr amrywiadau *ystorya* (HP 56.14-15) ac *istorya* (HP 61.12) yn digwydd yn fersiwn y Llyfr Gwyn, *Historia Peredur vab Efracw* ydyw i Goetinck (1976), enw yr ymddengys i Gwenogvryn Evans esgor arno, yn deitl rhedegog i'r chwedl yn ei olygiad ef (Evans 1907: ix, N‡).⁶ Bu sawl amrywiad ar enw'r chwedl ers dechrau ei golygu a'i diweddarau ac wrth i'r ffocws symud oddi wrth y Llyfr Coch at y Gwyn:

GOLYGYDD	ENW'R CHWEDL	FERSIWN	
		COCH	GWYN
Guest 1849	Peredur ab Efracw	C	
Foulkes 1880	Peredur ab Efracw	C	
Rhŷs & Evans 1887	Peredur	C	
Meyer 1887	Peredur ab Efracw	C	
Edwards 1901	Peredur ab Efrog	C	
J. G. Evans 1907	Historia Peredur vab Efracw		G
R. M. Jones 1960	Peredur	C	
Goetinck 1976	Historia Peredur vab Efracw		G
Ifans ac Ifans 1980	Hanes Peredur Fab Efrog		G

⁵ Yn y cyd-destun cymariaethol hwn, y mae gweddwdod *Breudwyt Ronabwy*, nas ceir ond yn y Llyfr Coch, ac sy'n llechu yno rhwng cyfieithiadau, yn cyflwyno elfen enigmatig i'r hanes. Ar y naill law, y mae yma awgrym bod i'r 'chwedl' hon hanes digon gwahanol i eiddo'r Mabinogion eraill, cefndir na fyddai'n anghydnaws â chasgliadau beirniaid llenyddol am ei chynnwys (cf. Davies 1995: 14-16). At hynny, tybiai Gwenogvryn Evans (1907: x) y byddai *Breudwyt Ronabwy* (o'i hysgrifennu ar dudalennau dwy golofn) wedi llenwi'n berffaith y bwlch a adawyd yn y Llyfr Gwyn yn sgîl colli cwir. Nid yw barn Daniel Huws (1991: 16, N.25) y byddai'r Freuddwyd ddwy dudalen yn brin o lenwi'r bwlch hwnnw yn annilysu damcaniaeth Evans: hawdd y gallai rhywbeth arall (neu, yn llai tebygol, ddim o gwbl) fod wedi llenwi'r dalennau gwag. Ni allwn ninnau ond breuddwydio am y posibiladau a nodi pe bai *Ronabwy* yn rhagflaenu *Owein* yng nghynsail y Llyfr Gwyn y gallai fod wedi gwneud hynny yn y traddodiad llawysgrifol a fwydodd y Llyfr Coch hefyd. Eithr os felly fe ychwanegwyd cyfieithiadau rywbryd yn olyniaeth y Llyfr Coch.

⁶ Ni ellir bellach ond damcaniaethu am union arwyddocâd *ystorya*. Cynigiodd y Dr Brynley Roberts (1974: 18-19), sy'n ein hatgoffa am ddefnyddio'r enw hefyd wrth gyflwyno *Gereint* yn y Llyfr Coch ('llyma mal y treythir o ystoria gereint uab erbin'), y gallai *ystorya* ddynodi cyfansoddiad a oedd nid yn unig yn ddiweddarach na'r chwedlau brodorol ond un yr oedd arno hefyd ddylanwad ysgrifenedig Ffrengig.

Peredur yn syml yw'r chwedl ymhlith ysgolheigion a'r teitl uniongyrchol hwnnw a fabwysiedir ar gyfer y golygiad lleiafaidd hwn.

1.3 Golygu'r chwedl

Y mae dwy garreg filltir benodol i draddodiad golygu *Peredur* y Llyfr Gwyn: cyfrolau Gwenogvryn Evans (1907) a Glenys Goetinck (1976). Golygiad diplomatig yw eiddo Evans.⁷ Ei nod oedd atgynhyrchu'n ffyddlon holl fanylion y llawysgrif: pob llythyren, gofod, gair, llinell, colofn, a thudalen (Evans 1907: ix). Er hynny, fel y dengys cymhariaeth o dudalennau'r Llyfr Gwyn ag eiddo fersiwn Evans, y mae gwahaniaethau sylfaenol rhwng diwyg y gwreiddiol ac eiddo'r golygiad hwnnw.

Un o'r elfennau na cheisiodd Evans eu hatgynhyrchu – ac un o'r gwahaniaethau gweledol amlycaf rhwng y llawysgrif a'r golygiad – yw'r llawysgrifen. Yn hynny o beth, nid cynrychioli Mabinogion y Llyfr Gwyn oedd prosiect mwyaf uchelgeisiol Gwenogvryn: atgynhyrchu Llyfr Du Caerfyrddin oedd hwnnw, mentr a olygodd ddefnyddio cynifer â phedair ffont ar ddeg a thorri llythrennau arbennig a oedd yn gopiâu ffyddlon o'r gwreiddiol (Evans 1906: xxxvii).⁸ Y canlyniad i'r gweithgarwch hwnnw oedd atgynhyrchu â theip holl nodweddion palaeograffig y llawysgrif.

Ail nodwedd sy'n cyfrannu at y gwahaniaeth gweledol rhwng fersiwn y Llyfr Gwyn o *Peredur* ac eiddo Evans – a'r unig elfen feirniadol a gyflwynwyd i'r golygiad – yw'r tanlinellu, nodiant y bwriadwyd iddo arwyddo cyflwr y llawysgrif (Evans 1907: x). Defnyddiwyd tair dyfais:

TANLINELLU	RHESWM
dotiau	anodd darllen
llinell syth	amhosibl darllen oherwydd amharu ar y felwm
llinell donnog	amhosibl darllen y gwreiddiol oherwydd ysgrifennu drosto gan law ddiweddarach

Methodoleg llawysgrif-ganolog a ddatblygodd Evans. Un ddarllenydd-ganolog yw eiddo Goetinck (1976). Yn hytrach na cheisio cyfleu holl

⁷ 'Atgynhyrchiad diplomatig' oedd y term a arddelai ef (Evans 1887: xiv) eithr dim ond fersiwn 1906 o Lyfr Du Caerfyrddin sy'n llawn deilyngu'r label hwnnw (gweler isod).

⁸ Ni allai teip arferol, wrth gwrs, gyfleu diwyg y gwreiddiol a hynny, efallai, a ysgogodd Gwenogvryn Evans i arloesi ymhellach flwyddyn ar ôl rhyddhau Mabinogion y Llyfr Coch o'r wasg drwy gyhoeddi ffacsibili *autotype* (dull ffotograffig o atgynhyrchu) o gyfrol o farddoniaeth, sef Llyfr Du Caerfyrddin. Yr oedd i'r cynnyrch ragoriaethau pendant, nid lleiaf am y gallai'r darllenydd weld y llawysgrif fel yr oedd, a phob staen, plygiad a thwll yn amlwg. Ond telid pris am hynny: yr oedd ambell ran o'r llawysgrif atgynyrchedig yn annarllenydd. Dim ond un cynnig arall a roddai Gwenogvryn ar ieuo technoleg ffotograffig at ei dasg, sef ar gyfer ffacsibili o Lyfr Du'r Waun yn 1909 (er nas cyhoeddwyd tan 1920).

nodweddion y gwreiddiol, yr hyn a wna hi yw cymhwyso confensiynau diweddar at y testun, strategaeth sy'n ei harwain nid yn unig i ymwrthod â cholofnau, atalnodau canoloesol, a rhai graffemau, ond hefyd i ychwanegu elfennau nas ceir yn y llawysgrif: paragraffau, collnodau, a dyfynodau, a rhannu geiriau yn unol ag arferion yr ugeinfed ganrif:

NODWEDD	GOETINCK
graffemau nad ydynt bellach yn gonfensiynol colofnau	defnyddio rhai diweddar tebyg yn eu lle: <2, 6, s> → <r, w, s> dileu ond cofnodi eu dechrau â rhifau rhwng bachau petryal
paragraffu rhannu geiriau collnodi atalnodi priflythrennau dyfynodau	ychwanegu mewn modd idiosyncratig cymhwyso confensiynau diweddar

Y canlyniad yw bod diwyg testun Goetinck yn ymdebygu o ran popeth ond y sillafu i nofel ddiweddar.

1.4 Golygu rhyddiaith ganoloesol y Gymraeg

Nid oes amheuaeth nad Gwenogvryn Evans oedd y golygydd testunau Cymraeg canol mwyaf toreithiog ac arbrofol a welsom. Er hynny, nid ef oedd y cyntaf i ymgymryd â golygu'r testunau rhyddiaith. Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg y bu hynny a thrwy gydol ail hanner y ganrif honno fe gynhyrchwyd nifer o gyfrolau ac astudiaethau sylweddol gan gynnwys:

Cyfraith Hywel yn *Ancient Laws and Institutes of Wales* (Owen 1841)

Brut y Tywysogion (Owen 1848)

The Mabinogion from the Llyfr Coch o Hergest... (Guest 1849)

Brut y Tywysogion (Williams ab Ithel 1860)

Meddygon Myddfai (Williams ab Ithel 1861)

Selections from the Hengwrt Manuscripts (Williams 1874-1892)

Y Mabinogion Cymreig... (Foulkes 1880)

Digon amrywiol oedd safon y cyhoeddiadau hyn, a gynhyrchwyd gan amaturiaid a oedd – am nad oedd eto gyrsiau prifysgol i hyfforddi ysgolheigion i ymdrin â'r Gymraeg a'i llenyddiaeth – yn anochel hunanaddysgedig. Nid heb reswm, felly, y maentumiwyd bod golygiad Guest – sy'n cynnwys yr ymdrech gyntaf i gyhoeddi un o destunau *Peredur* – yn perthyn i gyfnod cyn-wyddonol (Rhŷs 1887: vii-viii).

O gyfeiriad Caerdydd y daeth tro ar fyd gyda chyhoeddi golygiad yr Athro Thomas Powel o *Ystoria de Carolo Magno* y Llyfr Coch yn 1883

ond ni fu Adran Gelteg Rhydychen yn hir cyn esgor ar gywaith mwy sylweddol, gan Rhŷs a Gwenogvryn Evans (1887). Ymddengys mai Evans a ysgwyddodd y prif faich a Mabinogion Llyfr Coch Hergest – y gyfrol a osododd y safon – oedd blaenffwrwyth y gweithgarwch golygu. Yn y gwaith hwn y cymhwyswyd gyntaf yr egwyddorion golygu rhyddiaith y glynai Gwenogvryn atynt weddill ei oes ac a ddilynid hefyd gan John Morris Jones a Rhŷs wrth olygu llyfr Ancr Llanddewibrefi yn 1894 a Morgan Watkin yn ei olygiad o *Ystorya Bown de Hamtwn* (1958). Yr unig newid a wnâi Gwenogvryn pan ddeuai at olygu Llyfr Gwyn Rhydderch fyddai parchu fformat colofnog y gwreiddiol, nodwedd nas atgynhrychwyd yn y cyfrolau y bu Rhŷs yn ymwneud â hwy.

Nid oedd i ddadansoddi a dehongli le amlwg ym methodoleg na chenadwri Gwenogvryn Evans. Ymhyfrydu yn atgynhychu'r testunau yn eu manylder a wnâi ef, gan ymorchestu yn narparu'r deunyddiau safonol a sylfaenol a alluogai eraill i ymhél ag astudiaethau beirniadol (Evans 1907: xxv): 'Critical texts "have their day and cease to be," but a diplomatic reproduction, once thoroughly done, "goes on for ever"' (Evans 1887: xv).⁹ John Morris Jones, y cydnabu yntau ddylanwad Rhŷs drwy ei gynnwys yn gyd-awdur, a sefydlodd seiliau'r golygiad beirniadol: ceir nid yn unig ddadansoddiad palaeograffig ac orgraffyddol ar ddechrau ei olygiad diplomatig o lyfr Ancr Llanddewibrefi (Jones a Rhŷs 1894), ond hefyd drawsgrifiadau o Ladin gwreiddiol peth o'r cynnwys, Nodiadau, a Mynegai ar y diwedd. Bu'n rhaid aros dros drigain mlynedd am yr unig gyfraniad tebyg, sef eiddo Morgan Watkin (1958), gwaith y mae iddo hynodion pellach o ran mai'r Gymraeg yw iaith y drafodaeth (a hynny yn unol â thraddodiad cyffredinol ei ddydd), ac i'w gyfraniadau golygyddol gael eu hehangu i fod yn fwy na chwe gwaith hyd y testun: 173 tudalen ragymadroddol yn cwmpasu nid yn unig gefndir y testun a'i orgraff ond hefyd agweddau ar ei forffoleg a'i gystrawen, 114 tudalen o Nodiadau, a 59 tudalen o Eirfa.

Erbyn i Goetinck ddod at ei gwaith yr oedd golygiadau beirniadol o bron pob testun canoloesol Cymraeg pwysig (gan gynnwys y rhan fwyaf o chwedlau'r Mabinogion) wedi eu cyhoeddi a'r patrwm cyffredinol y mae golygiad Watkin (1958) yn enghraifft feistraidd ohono wedi ei hen sefydlu ar gyfer astudiaethau o'r fath:

⁹ Enynnodd lid John Morris-Jones pan droes at feirniadaeth destunol (Roberts 1999: 75).

Rhagymadrodd yn amlinellu:

- cefndir y testun
- cydberthynas y fersiynau llawysgrifol ohono
- nodweddion ieithyddol

Y testun golygedig

Nodiadau

Geirfa

Yr oeddi hefyd wedi dod i arfer cymhwyso'r cyfnewidiadau a restrir yn 1.3 uchod at destunau rhyddiaith, datblygiad y cyfeirir ato gan ambell olygydd arall, sy'n ymuniaethu â'r traddodiad:

Golygwyd y testun hwn yn y dull arferol... (Richards 1947: [vi])

The text has been edited in the manner to which we have now long been accustomed (D.S. Evans 1988: lviii)

Golygwyd y testun yn y modd arferol... (Daniel 1995: xciv)

Golygwyd yn y dull sy'n arferol bellach. (Edwards 1999: cxv)

Ymgynabod â chyffredinoledd a derbynioldeb yr un arferion, mae'n debyg, a adlewyrchir yng nghrynodeb datganiad Rhageiriol Goetinck (1976: [vii]) o'i methodoleg ac o drefniant ei chyfrol:

Atalnodyn y llawysgrif a threfnwyd hi mewn paragraffau yn ôl arfer heddiw a cheir cyfeiriadau yn y Nodiadau Testunol at yr ychydig fannau lle newidiwyd y gwreiddiol. Yn yr Eirfa, fel yn y Nodiadau Testunol, cyfeirir at y manau yn y testun lle digwydd yr enghreifftiau a ddyfynnir. Ni chyfeirir yno, o angenrhaid [sic], at yr enghraifft gyntaf o'r gair.

Yr argraff a roddir gan sylwadau'r golygyddion uchod yw bod golygiadau o destunau rhyddiaith Cymraeg yr oesoedd canol bellach yn dilyn set o gonfensiynau derbyniedig sy'n elfennau mewn paradim golygu sefydlog. Os felly, ac os yw'r paradim tybiedig hwnnw yn wir aeddfed, gellir disgwyl y bydd hefyd yn wrthrychol a dibynadwy. Hynny yw, pe cymhwysid y fethodoleg at yr un testun gan fwy nag un ymchwilydd fe gynhyrchid canlyniadau unfath. (Elfennau mwy amrywiol, wrth gwrs, a adlewyrchai brofiad a gogwydd diddordebau'r unigolyn, fyddai cynnwys y Rhagymadrodd a'r Nodiadau.) Y mae ystyriaethau hanesyddol ac ymarferol amlwg yn rhwystro ymgymryd ag arbrawf i brofi a fyddai sampl o olygyddion yn cynhyrchu golygiad unfath o destun prawf. Ond gellir arolygu arferion cyffredinol y gymuned olygyddol. Y mae sawl ffactor yn mynnu sylw:

- i. nodweddion graffemig (1.5)
- ii. rhannu geiriau a cholllodi (1.6)
- iii. priflythrennu ac atalnodi (1.7)
- iv. paragraffu a phenawdu (1.8)
- v. dyfeisiadau golygyddol (1.9)

1.5 Nodweddion graffemig

Pedair graff ganoloesol sy'n amlwg iawn yn y llawysgrifau ac y bu ysgol Rhydychen yn dra gofalus i'w hatgynhyrchu yw |ʒ, ʒ, s| ac |L| ⇐ /l/.¹⁰ Yn ei ddau olygiad rhyddiaith cyntaf – sef *Breuddwyd Maxen* (1908) a *Cyfranc Lludd a Llevelys* (1910) – y mae Ifor Williams yn adleisio arferion y golygyddion diplomatig ac yn atgynhyrchu'r pedair yn ffyddlon. Yn 1911, fodd bynnag, gyda chyhoeddi ei argraffiad cyntaf o destun y pedair cainc, fe fabwysiadodd |r, w, s, l| yn eu lle, strategaeth a weithredwyd hefyd yn *Chwedlau Odo* (1926). Nid tan gyhoeddi ei ail argraffiad (ac ail gysodiad) o *Pedeir Keinc y Mabinogi* y cyfiawnhawyd y penderfyniad drwy ei briodoli i 'arbed cost a thrafferth ofer wrth argraffu' (Williams 1930: vii).

Gan Simon Evans a Rachel Bromwich y cynigiwyd yr unig sylwadau golygyddol pellach am rai o'r graffau hyn. I'r blaenaf yr oedd dwy ystyriaeth arall yn pleidio cynrychioli |θ| ag |w|. O gyfeiriad seicoieithyddol y deuai'r naill: tyb y gallai defnyddio'r ddwy beri dryswch i'r darllynydd; sylw ieithyddol (annerbyniol yn nhermau ieithyddiaeth ddiweddar) sy'n adleisio eiddo Jones (1894: xvi) yn y ganrif flaenorol oedd y llall, sef bod |θ| ac |w| yn cael eu defnyddio'n ddiwahân yn llyfr yr Ancr (Evans 1988: lviii-lix). Ymgolli yng nghysgod |w| fu hanes |θ| yn yr holl olygiadau rhyddiaith eraill hefyd ac eithrio *Llyfr Cynog* (Wiliam 1990), sy'n harneisio |θ| i gyfleu |θ|.

Ar yr wyneb, y mae gan Bromwich (1978: cxlii) ddadl rymusach dros ymwrthod ag |ʒ| ac |s| – nid yw'n cyfeirio at |L| ac |θ| – sef mai diddordeb palaeograffig yn hytrach nag ieithyddol sydd iddynt. Yr un, fe ddichon, yw barn pob golygydd arall, nad oes ond ambell un ohonynt yn cyfeirio'n benodol at y graffau hyn, a hynny fel rheol wrth nodi'n syml iddynt ddefnyddio |r, w, s| yn lle |ʒ, ʒ, s| (Lewis 1925: 30, 31; Jenkins 1963: xxxiii; P. Williams 1982: xxxvi). Hawdd y gellir cytuno am bwysigrwydd palaeograffig |ʒ| ac |s| eithr os nad yw'r rhain yn cyfleu ffonemau nac allffonau gwahanol i |r| ac |s|, y maent yn cyfleu neges sosioieithyddol arall: y mae bod ysgrifydd yn eu defnyddio o gwbl yn ei leoli mewn gofod sosioieithyddol ac iddo ddimensiynau hanesyddol a chymdeithasol diffiniadwy. Gan hynny, o ddisgrifio ymbatrymu'r nodweddion hyn yn ieithwedd y gymuned o ysgrifwyr a'u defnyddiai, y mae'n bosibl y gellir dechrau dehongli eu harwyddocâd mewn termau cyfoethocach na datganiadau moel am eu presenoldeb amrywiol mewn cyd-destunau penodol. Y mae hynny'n wir am |L| ac |θ| hefyd, eithr fel y dangosir isod, 2.10, nid dim

¹⁰ Ond ||l| ⇐ /l/. Ni cheir |L| yn llyfr yr Ancr (Jones 1894: xxiii).

ond amrywiad palaeograffig ar |w| (neu |v| ac |u|) yw |ð| yn *Peredur*: yn y testun hwnnw, o leiaf, y mae iddi arwyddocâd ieithyddol hefyd.

1.6 Rhannu geiriau a chollnodi

Nid oedd ysgrifwyr y cyfnod canol wedi llawn ddatblygu confensiynau'r cyfnod diweddar ar gyfer rhannu ymadroddion llafar yn unedau geiriol ar bapur (cf. 2.1). Gellir priodoli hynny i dair ffactor a gymhlethai ddiffinio unedau geiriol sefydlog yn y cyfrwng ysgrifenedig:

- i. treiglo, a all beri i'r gair dyfyniadol a geiriadurol ymgolli yn yr ymadrodd fel nad hawdd diffinio'r 'gair' yn y Gymraeg (Thomas 1996: 609-613);
- ii. bodolaeth nifer o ffurfiau fel y rhagenw perthynol a'r rhagenwau blaen sydd yn gynhenid ddiacen, ac eraill – fel arddodiaid a'r rhagenwau ategol – a all fod yn acennog neu beidio (cf. 2.1);
- iii. absenoldeb confensiwn sefydlog i gyfleu'r treiglad trwynol ar bapur (cf. 2.6).

Dichon bod a wnelo'r ffactorau hyn â'r gofod amrywiol sydd rhwng 'geiriau' yn y llawysgrifau: ffactor a gydnabuwyd gan ysgol Rhydychen, a adnabu dair gradd o ofodi rhwng 'geiriau' y buwyd yn ofalus i'w hatgynhyrchu (Evans 1887: xviii-xix, Jones 1894: xvi).¹¹ Nid adlewyrchir y brwdfrydedd gofodol hwn yng nghynnyrch y golygyddion beirmiadol. Yn hytrach, byddant hwy naill ai'n peidio â chrybwyll y nodwedd o gwbl (e.e. I. Williams 1910, 1920; Evans 1988) neu'n nodi fel y gwnaeth Ifor Williams yn ei olygiad rhyddiaith olaf (1930: vii) ddarfod gwahanu '[g]eiriau oddiwrth ei gilydd yn null orgraff heddiw' (cf. datganiadau tebyg gan Henry Lewis 1925: 30, Dafydd Jenkins 1963: xxxiii, a P. Williams 1982: xxvi).

Pan fo ffurf geiriau wedi ymsefydlogi yn y cyfnod diweddar, digon didrafferth fel rheol fydd rhannu olyniadau mewn testun canoloesol. Eithr nid pob olyniad Cymraeg Canol sydd yn ddiamwys: ni ellir, er enghraifft, dorri'r ddadl bob amser ynglŷn ag arwyddocâd <ygyt>, a all gyfleu 'i gyd' ac 'ynghyd'. Ond eithriadol yw i dynfa patrwm mewn llawysgrif fod yn drech na normau'r cyfnod diweddar, ac i olygydd benderfynu fel y gwnaeth Wiliam (1960: xxxvii) beidio â didoli dwy elfen <puybynnac>. Amlygodd y penderfyniad hwnnw anallu grymoedd normaidd y cyfnod diweddar i

¹¹ Cymhlethir dehongli'r gofodau yn y golygiad o'r Llyfr Coch oherwydd i Evans gyflwyno elfen ddeongliadol i'r testun: rhannu 'geiriau' a ysgrifenasid yn un uned ddiodefod â gofod lleiafol; yr enghreifftiau a rydd (1887: xix) yw:

LLAWYSGRIF	GOLYGIAD
ao2uc	a o2uc
aphandeuth	a phan deuth
acynyLe	ac yn y Le

ddylanwadu ar olygydd, ffactor sy'n creu tensiwn rhwng ymbatrymu elfen hynafol mewn llawysgrif a'r angen am benderfyniad golygyddol. Elfen fwy cyffredinol o'r fath yw'r <ry> ragferfol. Uned annibynnol sydd i'w gwahanu oddi wrth y ferf yw hon i'r rhan fwyaf o'r golygyddion beirniadol (e.e. I. Williams 1910: 46, 1930: 328; D.S. Evans 1965: xl; T. Jones 1971: 368; P. Williams 1982; a Daniel 1995). Ymddengys i rym y traddodiad hwnnw, a oedd yn ei fabandod ddechrau'r ganrif, ddylanwadu ar Henry Lewis i newid ei farn am statws <ry>: elfen ddibynnol, glwm ydyw yn *Delw y Byd* (Lewis a Diverres 1928: 57, 52.4; 63, 66.6; passim) ond uned annibynnol yn *Brut Dingestow* (Lewis 1942: xlvi). Eithr os ochrodd Henry Lewis gyda'r rhelyw, nid felly Wiliam ddeunaw mlynedd yn ddiweddarach:

The preverbal particle *ry-* is regularly attached to its verb, even though it is often written separately in the MS., as the mutation which follows *ry-* (often shown in the orthography) indicates the compound nature of the preverb and verb. (Wiliam 1960: xxxvii)

Ond prin y gellir pwysu ar dreiglo yn y cyd-destun hwn: ysgogir yr un cyfnewid gan y rhagenw perthynol, eithr nid oes awgrym y dyldid ei glymu yntau wrth yr elfen sy'n ei ddilyn.

Wrth ddioli'r elfennau mewn rhai ymadroddion yn unol â disgwyliadau cynulleidfa fodern cyflwynodd y golygyddion beirniadol i'w cynnyrch arwydd anhysbys i gopiwyr yr oesoedd canol, sef y collnod. Er enghraifft, pan fyddai <r> yn y cyfuniadau <ar, or, yr> yn cynrychioli'r fannod yn y llawysgrifau, fe'u trowyd yn <a'r, o'r, y'r> 'a'r, o'r, i'r' yn y golygiadau. Yn hynny o beth nid oes unrhyw amryfusedd rhwng confensiynau'r cyfnod diweddar a'r datblygiad hanesyddol oherwydd fe gollwyd <y> ddechreuol y fannod yn y cyfuniadau hyn. Eithr defnyddir y collnod yn rheolaidd hefyd yn yr olyniadau <a'e, o'e> 'a'i, o'i', lle na fu unrhyw seingolli hanesyddol; yn yr olyniadau hynny, felly, y mae cymhwysu confensiwn anachronistig yn esgor ar ffurfiau ffug: pen draw hanesyddol abswrdd i olygu darlennydd-ganolog.

1.7 Priflythrennu ac atalnodi

Lluniwyd tablau gan Gwenogvryn Evans (1887: xvi) a John Morris Jones (1894: xvii) i ddangos yr amryfal fathau o lythrennau a geir (ar wahân i'r rhai mawr ar ddechrau adrannau ac a drafodir yn 1.8) yn y Llyfr Coch ac yn Llyfr yr Ancr. Un o briodoleddau'r llythrennau hynny yw nad dwy radd o faintioli sydd iddynt (megis yn y cyfnod diweddar) ond tair. Ail nodwedd ddieithr i ddarllenwyr y cyfnod diweddar yw mai dim ond tri atalnod sy'n gyffredin yn y llawysgrifau canoloesol: y punctus (y gall ei safle amrywio: < . > neu < · >), y virgula < , >, a'r punctus elevatus < ; >.

Cynrychiolodd ysgol Rhydychen atalnodau a maintioli llythrennau eu llawysgrifau yn ffyddlon. Y mae'n syn, felly, nad oes gan olygyddion diweddarach unrhyw sylw am faintioli llythrennau. Ni fu ychwaith ond cyfeiriadau prin at atalnodi:¹² Rachel Bromwich (1978: xvii, xxi) yn gweld safle'r atalnod yn dystiolaeth ar gyfer dyddio llawysgrifau, a Simon Evans (1977: ccliv) yn cofnodi iddo ystyried arwyddocâd <> a'r punctus amrywiol ei safle yn Peniarth 17 a chasglu ei bod yn 'anodd gweld pa egwyddor sydd y tu ôl i'r atalnodi'.¹³ Gan hynny, yr hyn a wna ef – fel pob golygydd beirniadol arall – yw priflythrennu ac atalnodi yn unol â chonfensiynau'r cyfnod modern: priflythyren i elfen gyntaf pob enw priod ac i air cyntaf pob brawddeg, atalnod llawn ar ddiwedd pob brawddeg, a choma, colon, hanner colon, llinellig, cromfach, dyfynnod, ebychnod a holnod yn ôl y galw. Dyma strategaeth y mae'n bosibl i'w gweithredu mor gyffredinol gael ei ysgogi yn y lle cyntaf gan yr ystyriaeth a gofnodwyd gan Henry Lewis (1925: 31), a gyflwynodd y nodau hyn i *Chwedleu Seith Doethon Rufein* 'er hwylustod i'r rhai a garai ddarllen ein hen lenyddiaeth, ond na chawsant gyfle i ddysgu arferion yr hen gopiŵyr.'

Nid yw cyffredinoled strategaethau llythrennu ac atalnodi'r golygyddion beirniadol yn eu dilysu. Yn hytrach, y mae bod cynifer o ysgrifwyr y cyfnod canol yn arfer sustem lythrennu dritherm a sustem atalnodi deuderm neu dritherm yn awgrymu nad mater o hap a damwain oeddent. Os felly, rhan o genadwri'r golygydd beirniadol yw ceisio dadansoddi a dehongli'r sustemau hynny a'r berthynas rhyngddynt. Oherwydd o anwybyddu'r nodweddiad hyn y mae perygl nid yn unig na chawn iawn werthfawrogi strwythurau a rhythmau llenyddiaeth y cyfnod ond hefyd y bydd hynny'n cyfrannu at ail-greu'r llenyddiaeth honno ar ddelw eiddo'r presennol.

1.8 Paragraffu a phenawdu

Fformat colofnog sydd i'r llawysgrif nodweddiadol, a'r ychydig brif raniadau yn y testun wedi eu dynodi â llythrennau mwy na'r cyffredin. Bydd hyd y llythrennau estynedig hyn yn ymestyn dros ddwy linell neu dair, ac weithiau byddant wedi eu rhuddellu hefyd.

Ni ddihangodd arwyddocâd y llythrennau estynedig rhag sylw pob golygydd beirniadol ac fe'i cynrychiolwyd mewn sawl golygiad: *Cyfranc Lludd a Llevelys* (Williams 1910), *Breuddwyd Maxen* (Williams 1920),

¹² Mae gan Huws (2000) rai sylwadau am atalnodi rhai o lawysgrifau Cymru.

¹³ Amlygwyd ymagweddu tebyg at y pwnc gan dri ysgolhaig nid anamlwg ym maes astudiaethau canoloesol a'm sicrhodd mai arwyddion *ad hoc* yw atalnodau copiŵyr y llawysgrifau rhyddiaith.

Brut Dingestow (Lewis 1942: xxix), *Llyfr Colan* (Jenkins 1963), ac *Ystoriaeu Seint Greal* (Jones 1992). Yn hyn o beth y mae i ddisgrifiad Wiliam (1960: xxxviii) werth arbennig oherwydd nid yn unig y mae'n nodi bod tair gradd o hyd i briflythrennau yn nhestun Cotton. Titus D.ii y Llyfrgell Brydeinig o Lyfr Iorwerth ond y mae hefyd yn darparu mesuriadau gofalus: 4 mm ar ddechrau brawddeg, 10 mm ar ddechrau paragraff, a 15 neu 20 mm ar ddechrau rhai penodau. Er hynny, ni cheisir cynrychioli'r amrywiadau hyn yn y golygiad.

Yr enghraifft hynotaf o blith yr uchod yw golygiad Dafydd Jenkins o Lyfr Colan: seiliwyd paragraffu hwn yn llwyr ar ruddellu (neu fwriad i ruddellu) llythyren gyntaf brawddeg (Jenkins 1963: xxxiii-xxxiv). Yn hytrach na pharagraffau mesuredig yr academydd, felly, y mae golygiad Jenkins yn cyfleu elfen o ddynmeg y llawysgrif wrth i faint unedau paragraffol amrywio'n sylweddol: gall un sy'n dair tudalen o hyd, er enghraifft, gael ei dilyn gan un o saith llinell (gw. Jenkins 1963: 27-31). Gwnaeth Henry Lewis (1942: xxix) benderfyniad tebyg pan gynrychiolodd y priflythrennau lliwiedig yng nghanol llinell yn y llawysgrif o *Brut Dingestow* a olygodd â llythrennau 14 pwynt ar ddechrau paragraffau. Gall y darlennydd, felly, wybod ar ba sail y paragraffwyd ac adfer elfen o strwythur gweledol y llawysgrif. Bu Thomas Jones yntau yr un mor ofalus wrth olygu *Ystoriaeu Seint Greal*, gan gyfleu prif raniadau mewnol y testun llawysgrif drwy gynrychioli'r priflythrennau tair-llinell a dwy-linell ynddi â llythrennau printiedig o faintioli cyffelyb (cf. Huws 1992: xiii).

Nid aeth strategaethau'r Athrawon Jenkins, Lewis a Jones yn norm. Yn hytrach, tuedd golygyddion beirmiadol yw diystyru arwyddocâd posibl maintioli llythrennau heb ei grybwyll hyd yn oed wrth ddisgrifio'r llawysgrif. Gan hynny, pe na bai am gyfrolau Gwenogvryn Evans, anodd fyddai gwybod bod llythrennau estynedig yn, dyweder, *Pedeir Keinc y Mabinogi*. O ran y clwm chwedlau hwnnw, fodd bynnag, y mae'n dra arwyddocaol bod <P> agoriadol y gainc gyntaf yn y Llyfr Coch yn ymestyn dros dair llinell, ond nad yw llythrennau dechreuol y tair cainc ddilynol yn hwy na dwy. Mae'r gwahaniaeth yn fwy dramatig fyth yn y Llyfr Gwyn: llythrennau dechreuol y tair cainc olaf yn ymestyn dros ddwy linell (fel yn y Coch) ond dolen y <P> yn <Pwyll>, gair cyntaf y gainc gyntaf, yn llenwi tair llinell, a'i chynffon yn cwmpasu saith. Byddai sgriptoriwm goludog a noddwr cyfoethog mewn gwlad arall wedi gallu troi at addumwr i gynllunio a chywreinio priflythyren o'r fath, un o'r ddwy fwyaf uchelgeisiol yn y Llyfr Gwyn (Huws 1991: 13). Ond yr hyn a allodd copïwr llwm Cymru'r bedwaredd ganrif ar ddeg, ef a'i gwnaeth.

Arfer golygyddion beirniadol, felly, yw gorfodi fformat paragraffol – ac weithiau adrannol hefyd – ar destun, gan newid yr ymbatrymu a'r rhythmau gweledol cynhenid. Yr enghraifft ddiweddaraf o hynny yw *Ystoria Gwlat Ieuan Vendigeit* (Edwards 1999). Yn y llawysgrif rhennir tudalen gyntaf y testun yn dair adran y mae eu pwysigrwydd yn amlwg gynyddu wrth symud o'r naill i'r llall: llinell gyflwyniadol sy'n dechrau â phriflythyren un-llinell; paragraff cyflwyniadol ac iddo briflythyren ddwy-linell; a'r prif destun y mae bôn ei lythyren gyntaf – <J> yn <Jeuan> – yn cwmpasu pum llinell (Jones & Rhys 1894: llun gyferbyn â 164). Celwyd y strwythur hierarchaidd hwn gan fformat y golygiad beirniadol (Edwards 1999: 1).

Sylwyd uchod mai strategaeth lawysgrif-ganolog a fabwysiadodd Dafydd Jenkins wrth rannu Llyfr Colan; athroniaethau golygu gwahanol a amlygir gan olygyddion testunau cyfreithiol eraill. Llyfrau Iorwerth a Chynog wedi eu trefnu'n gyfres o baragraffau rhifedig yn unol â rhaniadau 'naturiol' y deunyddiau (Wiliam 1960: xxxvii; cf. Wiliam 1990: xii). Llyfr Blegywryd wedi eu rannu'n adrannau ac iddynt deitlau 'er mwyn hwylustod y darllenwyr' (er bod 'ychydig ohonynt yn y llawysgrifau': ni chawn wybod pa rai), a'r adrannau yn baragraffau (Williams a Powell 1942: xlvi). Nid llai brith yw arferion golygyddion mathau eraill o ryddiaith, a all fabwysiadu sawl dull o rannu testun:

RHANIADAU TESTUNOL	ENGHREIFFTIAU
Paragraffu yn unol â chonfensiynau rhyddiaith academiaidd	Edwards 1999 I. Williams 1910, 1920, 1930 P. Williams 1982 S.J. Williams 1968
Paragraffu nofelaid	Goetinck 1976
Paragraffu confensiynol ac adrannau a rifwyd yn unol â rhaniadau yn y testun	Daniel 1995 Wiliam 1960, 1990
Paragraffu confensiynol a phenawdu personol	D.S. Evans 1959, 1977, 1988 Evans & Bromwich 1988, 1992
Paragraffu a phenawdu sy'n adlewyrchu rhaniadau mewn testun perthynol	Lewis 1925 I. Williams 1926 S.J. Williams 1929 T. Jones 1955, 1992

Fel y gwelir, ychwanegodd nifer o olygyddion benawdau at eu testunau, penderfyniad a lywiwyd ar dro gan rymoedd allanol. Ysgogwyd Henry Lewis, er enghraifft, i ychwanegu teitlau Lladin a luniwyd gan olygydd fersiwn Ladin o'i destun at *Chwedleu Seith Doethon Rufein* (Lewis 1925: 26). Cyfieithiad arall, a thestun y mae iddo yntau raniadau naturiol y gellir apelio

atynt er mwyn cyfiawnhau ychwanegu penawdau ato wrth ei olygu'n feirniadol, yw *Chwedlau Odo* (I. Williams 1926). Mwy dadleuol – er nad anodd cydymdeimlo â bwriad y golygydd – oedd y penderfyniad i argraffu'r penawdau golygyddol hynny 'yn orgraff yr ysgrifennydd' (I. Williams 1926: xl). Gellid dadlau yn yr un modd fod y ffaith mai cyfieithiad ydyw, ynghyda hunan-gynhaliaeth yr episodau yn *Taith y Brawd Odrig*, yn rheswm dros ychwanegu penawdau golygyddol atynt hwythau. Ac fel yr addefir am *Ystoriaeue Saint Greal* (J. E. Caerwyn Williams yn T. Jones 1992: xxvi):

Y golygydd fu'n gyfrifol am y penawdau i gyd, ac am rannu'r testun yn baragraffau. Yn hytrach na dilyn dull Hywel Fychan [sef copiwr y llawysgrif] o baragraffu yn y llawysgrif, fel y gwnaeth Robert Williams... yn 1876, dewisodd yr Athro Thomas Jones ddilyn yr un rhaniadau ag a wnaeth Pauphilet wrth iddo olygu *La Queste del Saint Graal*, er mwyn hwyluso, mae'n debyg, y gwaith o gymharu'r cyfieithiad â'r rhant Ffrangeg.

Ond beth, tybed, a gymhellodd yr Athro D. Simon Evans i rannu pob testun a olygodd – gan gynnwys *Culhwch ac Olwen*, nad oes arlliw o awgrym mai cyfieithiad ydyw – yn adrannau bychain ac iddynt benawdau pwrpasol? Dyma binacl y bensaerniaeth olygyddol oddrychol.

1.9 Dyfeisiadau golygyddol eraill

Ers dechrau cynhyrchu golygiadau beirniadol fe harneisiwyd nifer o ddyfeisiadau gweledol at y dasg o gofnodi diwygiadau'r golygydd, arfogaeth sy'n cynnwys defnyddio teip gwahanol, tanlinellu, tanddotio, uwchsgriptiau, bachau petryal, a chromfachau crwn. Sylwer ar y nodiannau a fabwysiadodd Gwenogvryn Evans yn 1887, wrth fanteisio'n llawn ar adnoddau cysodwyr diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg:

DYFAIS	SWYDDOGAETH
teip italig	llythrennau yr ysgrifennwyd drostynt
teip main	llythrennau na ellid ond prin eu darllen
y llythyren ddu	inc coch yn y gwreiddiol
ffont Tuduraidd	unrhyw beth nas ceir yn y llawysgrif
tanlinellu	llythrennau a ychwanegwyd uwchben y llinell

Ceir confensiynau tebyg gan Rhys a Jones (1897: xvi-xvii) eithr erbyn golygu'r Llyfr Gwyn yr oedd y drefn uchod wedi ei disodli gan sustem danlinellu (1.3). Yr Athro Thomas Jones (1971) yw'r unig olygydd rhyddiaith arall i amrywio maint y teip mewn golygiad: llai na'r arfer i ddyfodi rhannau y bernid eu bod yn deillio o ffynonellau eraill, a thrwm ar gyfer dyddiadau cywir (yn hytrach nag eiddo'r croniclewr), dyfais a ddefnyddiwyd hefyd yn Jones (1955).

Dyfeisiadau sy'n effeithio'n sylfaenol ar ddiwyg tudalennaid o destun golygedig ac sy'n amlwg iawn mewn llawer golygiad yw'r rhif uwchsgript a'r troednodyn y mae'n ei ddynodi. Ymddengys fod tair ffactor yn dylanwadu ar nifer y parau hyn: nifer y llawysgrifau a ystyriwyd, tebygrwydd eu geiriad, a brwdfrydedd y golygydd am fanylion gwahaniaethol. Golygiad Daniel (1995) yw'r llawnaf o'r safbwynt hwn: 1,841 o nodiadau, a leolir ar ôl y testun ei hun. Ceisio adlunio testun gwreiddiol yr oedd Daniel, nod sydd yn llawn gyfiawnhau ystyried yn ofalus arwyddocâd pob manylyn yn y ffynonellau. Yn gyffredinol, fodd bynnag, mwy gwerthfawr na chyfeiriadau dethol a digyswllt at amrywion unigol fyddai cael copïau cyflawn o wahanol destunau.

Fel y dengys Tabl 1.9 (drosodd), yr unig ddyfeisiadau cyffredin i bob golygiad yw'r bachau petryal. Er hynny, nid oes i'r rhain arwyddocâd cyson; yn hytrach, gall eu swyddogaethau gael eu rhannu gan gromfachau crwn ac italeiddio. Defnyddir bachau petryal yn aml i ddynodi cyfeiriadau llawysgrifol; ychwanegiadau at y testun gwreiddiol yw'r rhain, a hawdd y gellid cyfuno'r gell honno yn y Tabl â'r un odani (sef ychwanegiadau golygyddol eraill). Ond hyd yn oed wedyn, ni fyddai swyddogaeth unigryw i'r un o'r tair dyfais hyn. Yn hytrach, gallant fod yn amwys nid yn unig oddi mewn i'r gymuned olygyddol ond hefyd mewn golygiad unigol. Er mwyn deall arwyddocâd italeiddio, er enghraifft, rhaid ymgydnabod o'r newydd wrth agor pob cyfrol â chonfensiynau'r golygydd unigol. Ond wedi gwneud hynny nid yw neges italeiddio yn Williams (1926) yn gwbl eglur: gall ddynodi darlleniad ansicr a thalfyriad estynedig.¹⁴

Ail neges a gyfleir gan Dabl 1.9 yw absenoldeb datblygu ac ymsefydlogi yn arferion y gymuned olygyddol. Fe welir, er enghraifft, mai'r swyddogaeth arferol i fachau petryal yw arwyddo ychwanegiadau golygyddol. Ond yn Edwards (1999) – y gyfrol olaf i ymddangos – dynodi elfennau y mae'r golygydd yn barnu y dylid eu *dileu* y mae []. Gwahanol i'r arfer cyffredinol hefyd yw'r cromfachau crwn sy'n dynodi ychwanegiadau yn Bromwich (1978), dyfais y cymhlethir ymgyfarwyddo â'i harwyddocâd yn y gyfrol honno gan y llythrennau italg rhwng cromfachau crwn, sy'n arwyddo elfennau afreidiol neu ddileadau (Bromwich 1978: cxlii).

¹⁴ Mater arall yw'r modd y trafodir talfyriadau: er bod Ifor Williams (1926), Jenkins (1960) a D. S. Evans (1988: lix) yn dynodi eu hestyn ag italeiddio, eu hehangu'n dawel a wnaeth eraill (cf. T. Jones 1940: xc, 1955: lxii, 1971: li; Wiliam 1960: xxxvii; S. J. Williams 1930: xlii).

Tabl 1.9: Swyddogaethau tair dyfais olygyddol

NODWEDD	CROMFACHAU	BACHAU PETRYAL	ITALEIDDIO
cyfeiriadau llawysgrifol	P. Williams 1982 Wiliam 1990 Daniel 1995	Lewis 1925 S.J. Williams 1929 I. Williams 1930 Williams a Powell 1942 D.S. Evans 1959 Jenkins 1963 Goetinck 1976 D.S. Evans 1977 D.S. Evans 1988	
ychwaneg- iadau	Bromwich 1978	I. Williams 1910 Lewis 1925 I. Williams 1926 S.J. Williams 1929 I. Williams 1930 D.S. Evans 1988 Edwards 1999	Wiliam 1960 Jenkins 1963 Edwards 1999
dileadau		Daniel 1995	
bylchau		Edwards 1999	
diwygio golygyddol		Edwards 1999	Jenkins 1963
elfennau ansicr		S.J. Williams 1929	I. Williams 1926
estyn talfyriadau			I. Williams 1926 D.S. Evans 1988 Jenkins 1963

Ond efallai mai neges fwyaf trawiadol Tabl 1.9 yw mai hynodi ambell olygydd unigol y mae rhai o'r swyddogaethau. Cyfrol Daniel sy'n mynegi'r annibyniaeth fethodolegol hon groywaf: yn ogystal â defnyddio [] i ddangos hepgor ceir ganddo ef set o ddyfeisiadau golygyddol unigryw: † † yn dynodi diwygio, a < > yn arwyddo cyflenwi (Daniel 1995: xciv).¹⁵

Athroniaethau golygu gwahanol sy'n llywio amrywio dyfeisiadol ar brydiau. Er enghraifft, yr oedd un o'r llawysgrifau a olygwyd gan Edwards (1999) yn fylchog am fod staenio trwm wedi ei gwneud yn annarllenadwy mewn manau (Edwards 1999: 15-17, 19-20 passim); nodwyd bylchau o'r fath yn y golygiad â gofod rhwng bachau petryal. Bu golygyddion eraill yn ymwneud â chyfieithiadau bylchog eithr nid yr un fu eu hymateb. Er enghraifft, pan ymroes i olygu *Chwedleu Seith Doethon Rufein*, fe gafodd

¹⁵ Dynodi elfen a drafodir yn y Nodiadau y mae † unigol yn T. Jones (1955).

Henry Lewis fod dechrau llinellau un o golofnau'r Llyfr Coch wedi eu briwio. Ond, meddai, 'nid oes anhawster ynghylch pa lythrennau a ddylid eu darllen, ac felly ni thrafferthwyd i nodi hynny wrth brintio' (Lewis 1925: 31). Heb nodiadau golygyddol i'n harwain rhaid troi at y Llyfr Coch ei hun er mwyn cael gwerthfawrogi helaethrwydd gwaith adfer yr Athro Lewis.

Pan fyddai mwy na dechrau llinellau ar goll gallai rhai golygyddion gyflenwi o lawysgrif arall, fel y gwnaeth S. J. Williams (1930: xliii) wrth lunio testun *Ystorya de Carolo Magno*, Henry Lewis (1942: xxviii) wrth olygu *Brut Dingestow*, Thomson (1968) wrth drafod *Owein*, a Bromwich ac Evans (1988, 1992) yn eu *Culhwch ac Olwen*. Yn yr un modd, cyfuniad o ddwy lawysgrif yw golygiad Thomas Jones o *Brenhinedd y Saesson*; a phlethwaith o dair yw ei *Brut y Tywysogyon* (T. Jones 1971: li; 1955: l-li). Yn hynny o beth, nid oedd golygyddion yr ugeinfed ganrif yn ymddwyn yn wahanol i gopiwyr yr oesoedd canol, y mae tystiolaeth fewnol iddynt hwythau gyflenwi o lawysgrifau eraill (P. Williams 1982: xxxii-xxxiv; Thomas 2000). Ac er na wyddom ddim am yr union gyd-destun, nid ymataliodd Hywel Vychan (prif ysgrifydd y Llyfr Coch) rhag llenwi bwch yn y Llyfr Gwyn pan fu hwnnw yn ei feddiant ar fenthyg (Huws 1991: 24-25). Ond saif datrysiaid mentrus Ifor Williams (1926: 9) i broblem y testun anghyflawn yn garreg filltir unigryw yn hanes golygu testunau rhyddiaith ganoloesol y Gymraeg: cyflenwi bwch sylweddol – bron deunaw llinell gysodedig – yn *Chwedlau Odo* drwy 'droi'r Lladin i'r peth tebycaf a allwn i iaith gweddill y chwedl.' 'Twyll golau' oedd hyn i Ifor Williams (1926: 9), a diau bod ei benderfyniad i lenwi'r bwch yn adlewyrchu elfen o ddireidi ar ran y golygydd dysgedig a chydwybodol. Ond ni waeth am bedigri'r awdur, cyfansoddiad creadigol o'r ugeinfed ganrif yw'r darn hwn a rhybudd nad gwyddoniaeth ond celfyddyd yw golygu.

1.10 Crynhoi'r tueddiadau

Ni ellir anghytuno â'r golygydd sy'n mynnu bod ei olygiad o ddiddordeb ieithyddol (Lewis 1942: [vii], T. Jones 1955: lxii): mae hynny'n wir am bob testun. Ond nid oes cysondeb ynglŷn ag ystyr 'ieithyddol' yng nghyd-destun golygiadau o ryddiaith Gymraeg yr oesoedd canol: gall gyfeirio at y canoloesol pan ystyrir semanteg a morffoleg, ond nid oes dal beth fydd ei arwyddocâd pan droir at nodweddion eraill, megis y graffoffonolegol a strwythur yr unedau 'geiriol' a 'brawddegol'. Gwaddol yw hynny i draddodiad a fynnodd atalnodi, priflythrennu, brawddegol, paragraffu (ac weithiau labelu hefyd) 'fel y gwneir â llyfrau Lladin i blant ysgol' (I.

Williams 1908: xxii); y canlyniad fu parselu cryn gyfran o'r testunau yn adrannau glanwaith, hwylus i diwtoriaid, caredig i fyfyrwyr.

Effeithir ymhellach ar ddiwyg y rhan fwyaf o'r testunau golygedig drwy ychwanegu arwyddion arbenigol atynt er mwyn dynodi cyfnewidiadau golygyddol. Bydd hynny oherwydd derbyn yn gyffredinol, fe ymddengys, ei bod yn briodol cymhwyso at unrhyw destun rhyddiaith athroniaeth olygu Ifor Williams (1908: xxii), a ymdrechai o'r dechrau i 'roi'r testun goreu a allwn heb ddilyn gwallau amlwg ysgrifennydd y Llyfr Coch.' Elfen nodweddiadol yn y genadwri honno yw trafod y diwygiadau 'pwysig' yn wahanol i atalnodi, priflythrennu a pharagraffu, drwy dynnu sylw penodol atynt. Y mae fel pe byddid yn ystyried mai gweithgaredd anochel, awtomatig, ac anfwriadus yw atalnodi, priflythrennu a pharagraffu testun canoloesol yn y dull diweddar. Ond cynnyrch math arall o farn – ysgolheictod, efallai – sy'n arwain at ychwanegu elfennau, eu hepgor, neu eu diwygio; y mae'r rheini'n teilyngu eu cofnodi.

Mae sylw megis eiddo P. Williams (1982: xxxvi), sy'n ymuniaethu'n fethodolegol ag Ifor Williams, ac eraill sy'n nodi iddynt olygu 'in the manner to which we have now long been accustomed' (Evans 1988: lviii) yn tystio i'r ymwybyddiaeth sydd gan rai golygyddion rhyddiaith ganoloesol eu bod yn rhan o gymuned olygu ehangach. Ond os dilys cysynied am gymuned o'r fath, mae'r amrywiaeth yn arferion ei haelodau yn ei gwneud yn eglur mai rhwydwaith llac o unigolion anghydfurfiol ydyw: rhennir rhai daliadau sylfaenol, fel y gred ddiysgog fod angen dynodi diwedd colofn neu ffolio, ac atalnodi a phriflythrennu yn y dull diweddar, eithr nis darbyllwyd i ymuno yn un enwad unffurf gynganeddus sy'n coleddu un gredo fethodolegol.

1.11 Agor hualau *Peredur*

Cysyniad gwaelodol i feirniadaeth lenyddol ddiweddar yw y gall fod sawl darlleniad i destun. Amlygwyd hynny'n glir gan *Peredur* (Knight 2000, Roberts 2000), chwedl y mae golygiadau nofelaidd Goetinck (1976) a llawysgrif-ganolog Evans (1907) ohoni yn enghreifftio hefyd weddau ar y ddeuliaeth a wêl Eco (1981) rhwng testun 'caeedig' (sef un sy'n ffafrio un darlleniad rhagor eraill) a thestun 'agored' (sy'n mynnu bod nifer o ddarlleniadau'n cael eu gwneud ar y cyd er mwyn cael gwerthfawrogi ei gyfoeth). Tuedd testunau agored yw bod yn uchel ael a pherthyn i ddiwylliant 'uchel'; mae testunau caeedig, ar y llaw arall, yn tueddu i berthyn i ddiwylliant torfol ac o'r herwydd yn fwy poblogaidd eu naws (O'Sullivan et al. 1983: 178).

Y mae amrediad o farnau ynglŷn â swyddogaeth y golygydd: ceidwadedd

eithafol (sy'n parchu holl nodweddion y gwreiddiol) ar un pegwn yn ymdoddi'n rhyddfrydedd gofalus (sy'n caniatáu i'r golygydd ddiwygio yn ôl ei farn aeddfed) ar y pegwn arall.¹⁶ Nid rhaid bod mabwysiadu un agwedd yn annilysu pob un arall: yn hytrach, y mae lle i drafod testun mewn mwy nag un ffordd, gan ddibynnu ar y gynulleidfa arfaethedig. Hierarchaeth bosibl yw:

1. Lluniau o'r llawysgrif
2. Trawsgrifiad
3. Golygiad ceidwadol, llawysgrif-ganolog
4. Golygiad mwy rhyddfrydol, darllynydd-ganolog
5. Diweddariad (neu gyfieithiad)

Gall technoleg ddiweddar ganiatáu cyfuno'r pump uchod mewn un cyhoeddiad electronig, gan roi rhyddid i'r darllynydd ddewis un math o olygiad neu symud yn ôl ac ymlaen rhyngddynt fel y mynno. O ran *Peredur*, y mae lluniau o'r llawysgrif ar gael mewn sawl llyfrgell brifysgol, cyhoeddodd Gwenogvryn Evans olygiad tra cheidwadol yn 1907, a chynhyrchoedd Goetinck yn ei thro olygiad rhyddfrydol yn 1976. At hynny y mae gennym bellach gyfrol o ddarlleniadau gan arbenigwyr ar wahanol weddau ar y testun (Davies a Thomas 2000). Ond os ydym i lawn werthfawrogi testun fel *Peredur*, a ysgrifennwyd dros chwe chanrif yn ôl, ac esgor ar ddarlleniadau nad ydynt drwy ddiffiniad yn hanesyddol annilys, rhaid nid yn unig ymgynabod â'r gwahaniaethau cymdeithasol rhwng yr awdur-olygydd canoloesol a'r darllynydd modern ond derbyn hefyd nad dim ond systemau ystyr yr awdur a wreiddiwyd mewn cymdeithas wahanol i'r un bresennol: cynnyrch cymdeithas arall hefyd yw'r systemau ieithyddol, sydd yn cyfleu'r ystyr.

Y duedd ers ymddangosiad golygiad Goetinck (1976) fu anwybyddu eiddo Evans (1907). Ond un o ganlyniadau ymagweddu golygydd- a darllynydd-ganolog Goetinck oedd iddi ddilladu a hualu geiriau ei *Historia Peredur vab Efracw* â gwisg barod a chaeedig llenyddiaeth dorfol y cyfnod presennol. O ran yr ieithwedd, y mae, yn nhermau Barthes (1970/1975), wedi creu testun 'darllenus', sef un ac iddo gonfensiynau ieithyddol cyfarwydd a ddeallir yn ddiymdrech gan y darllynydd. Er hynny, deil iaith a chynnwys y testun i fod yn 'ysgrifus': rhaid i'r darllynydd ymdrechu i'w deall hwy fel y rhaid wrth ddarllen hefyd ieithwedd testunau gwreiddiol y Llyfr Gwyn a'r Llyfr Coch, nad yw paragraffu'n bod ynddynt, y rhennir ymadroddion mewn dulliau annisgwyl ynddynt, ac y mae eu hatalnodi a'u priflythrennu yn ymddangosiadol wamal. Fel y ceisir dangos yn yr adran

¹⁶ Ceir trafodaethau diweddar o safbwynt rhyddiaith ganoloesol gan Jones (2000: 1-19) a Roberts (2000), ac am farddoniaeth y cyfnod gan Fulton (1996) a Hunter (1995).

nesaf, fodd bynnag, y mae i sustemau ieithweddol *Peredur* y Llyfr Gwyn eu dynameg eu hunain; hynny, yn wir, a ddisgwyliid: cynnyrch cymdeithas arbennig ydynt ac ar gyfer y gymdeithas honno y'u bwriadwyd. Gan hynny, llawysgrif a llawysgrifen y copiwr-olygydd canoloesol yw man cychwyn y golygiad hwn. Nid oes dim sy'n arbennig yn hynny: gyda'r llawysgrif y bydd pob golygiad ysgolheigaidd yn dechrau. Yn y golygiad hwn, fodd bynnag, fe geisir peri i ddisgwyliadau'r gynulleidfa fod yn eilradd i gyfleu'r testun: y bwriad yw tywys y darlennydd i ddarllen Cymraeg y cyfnod canol yn hytrach na Chymraeg canol-a-rannol-ddiweddarwyd. Oherwydd fel y dadleuir wrth drafod atalnodi, gall gosod confensiynau diweddar ar gynnyrch yr oesoedd canol beri difodi strwythurau gwreiddiol fel nad gwaddol yr ysgrifydd canoloesol ond creadigaeth y golygydd diweddar a gyfryngir i'r gynulleidfa ddiniwed.

Ni allwn ni, bid siŵr, obeithio gallu gwerthfawrogi ac adlunio holl nodweddion cymdeithas ganoloesol ac atgynhyrchu darlenniad(au) cynulleidfaoedd mewn cyfnod arall. Ond y mae ieithwedd *Peredur* (ac eiddo pob testun tebyg arall) yn ein herio – onid yn ein gorfodi – i geisio'i deall yn ei themau ei hun. Yn wir, heb ogwydd llawysgrif-ganolog y mae'n gwestiwn a all y testun 'ymagor' yn llawn a chaniatáu inni dreiddio i adnabyddiaeth ddofn ohono.